

PWYLLGOR ARCHWILIO PARTNERIAETHAU

Cofnodion cyfarfod o'r Pwyllgor Archwilio Partneriaethau a gynhaliwyd yn COUNCIL CHAMBER, RUSSELL HOUSE, RHYL, Dydd Iau, 14 Ebrill 2016 am 9.30 am.

YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr Raymond Bartley (Is-Gadeirydd), Jeanette Chamberlain-Jones (Cadeirydd), Martyn Holland, Pat Jones, Arwel Roberts a/ac Bill Tasker

Hefyd yn bresennol: Aelod Arweiniol Gofal Cymdeithasol, Gwasanaethau Oedolion a Phlant, y Cynghorydd Bobby Feeley

HEFYD YN BRESENNOL

Cyfarwyddwr Corfforaethol: Cymunedau (NS), Pennaeth Cefnogaeth Gymunedol (PG), Rheolwr Gwasanaeth: Datblygu Strategol (GG), Prif Reolwr (Gwasanaethau Gweithredol) (CCN), Cydlynnydd Craffu (RE), a Gweinyddwr Pwyllgorau (SLW).

1 YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cynghorwr(wyr) Meirick Davies, Dewi Owens a/ac Pete Prendergast

2 DATGANIADAU O GYSYLLTIAD

Dim Datganiad o Gysylltiad.

3 MATERION BRYD FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD

Dim materion bryd.

4 COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF

Cyflwynwyd Cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Archwilio Partneriaethau a gynhaliwyd ddydd Iau, 25 Chwefror 2016.

Materion yn codi:-

Tudalen 4 - Eitem 5 - Datblygu Ysbyty Cymuned yn Y Rhyl.

Rhoddodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol: Cymunedau y wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor yn dilyn ymweliad gan y Gweinidog Iechyd, gyda'r Prif Reolwr (Gwasanaethau Gweithredol) yn bresennol. Roedd pryderon a godwyd gan y Pwyllgor Partneriaethau wedi eu cyflwyno i'r Gweinidog Iechyd a gadarnhaodd bod Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i ddatblygu'r Ysbyty Cymuned yn y Rhyl.

Cadarnhawyd y byddai cynrychiolwyr o Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC) yn mynychu Pwyllgor Archwilio Partneriaethau ar 7 Gorffennaf 2016.

PENDERFYNWYD yn amodol ar yr uchod, derbyn a chymeradwyo'r Cofnodion fel cofnod cywir.

5 CEFNOGI ANNIBYNAETH POBL HŶN - ADRODDIAD SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Cyflwynodd yr Aelod Arweiniol Gofal Cymdeithasol (Gwasanaethau Oedolion a Phlant) yr adroddiad (a ddosbarthwyd yn flaenorol) i Aelodau ystyried y canfyddiadau ac argymhellion yr Adroddiad Cefnogi Annibyniaeth Pobl Hŷn - Swyddfa Archwilio Cymru.

Pwysleisiodd yr Aelod Arweiniol ei bod yn bwysig bod Awdurdodau Lleol ar draws Cymru yn cefnogi gwasanaethau atal i gynorthwyo annibyniaeth pobl hŷn.

Ynghlwm yn Atodiad 1 yr adroddiad oedd Cynllun Gweithredu'r Cyngor ar gyfer symud ymlaen â'r argymhellion. Dywedodd swyddogion a'r Aelod Arweiniol wrth yr Aelodau fod yr astudiaeth yn amlygu:

- y ffaith bod angen i Awdurdodau Lleol fabwysiadu dull corfforaethol cydlynol tuag at gefnogi annibyniaeth pobl hŷn, nid dibynnu'n gyfan gwbl ar wasanaethau ieched a gofal cymdeithasol.
- cydnabod y cyfyngiadau ariannol difrifol sy'n cyfyngu Awdurdodau Lleol rhag darparu rhai gwasanaethau cynghori a gwasanaethau cymorth anstatudol.

Dywedwyd wrth y Pwyllgor fod:

- y trydydd sector yn Sir Ddinbych yn derbyn arian grant gan y Cyngor er mwyn ei alluogi i gyflawni gwaith cynghori a chymorth. Roedd contractau gyda'r trydydd sector yn nodi mai amod yr arian grant oedd eu bod yn darparu gwasanaethau a oedd yn cefnogi annibyniaeth. Hyd yma, roedd hyn wedi profi'n effeithiol iawnroedd y gwasanaeth Pwynt Mynediad Sengl yn gymhelliant allweddol yn nod y Cyngor i wella mynediad at gyngor a gwybodaeth
- Datblygwyd Cynllun Heneiddio'n Dda.
- "Pwyntiau Siarad", wedi eu sefydlu, a oedd yn ceisio estyn allan at bobl o fewn eu cymunedau, gan atal atgyfeiriadau i'r Gwasanaethau Cymdeithasol
- ffocws y gwasanaethau gofal cymdeithasol yn cael ei newid o wasanaeth adweithiol / ymyrraeth i fod yn wasanaeth ataliol mwy rhagweithiol yn unol â gofynion y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru)
- roedd gwaith yn awr ar y gweill i ddatblygu "Strategaeth Cefnogi Annibyniaeth yn Sir Ddinbych", a fyddai'n cydymffurfio â'r weledigaeth a nodir yn y Datganiad Dulyn ar Ddinasoedd a Chymunedau sy'n Gyfeillgar i Oed - y mae'r Cyngor yn llofnodydd.

Gan ymateb i gwestiynau'r Aelodau, dywedodd yr Aelod Arweiniol a swyddogion:

- ar hyn o bryd daeth rhan sylweddol o'r cyllid ar gyfer y Gwasanaeth Pwynt Mynediad Sengl drwy grant y Gronfa Gofal Canolraddol. Mae'r arian grant yn tueddu i fod braidd yn dameidiog a dyfarnwyd yn flynyddol, a oedd yn ei gwneud yn anodd iawn i gynllunio ar gyfer y tymor canolig i'r tymor hir. Roedd

Sir Ddinbych eisoes yn darparu llawer o gefnogaeth a mabwysiadu'r ymagwedd gorfforaethol yr oedd yn anelu ato yn yr adroddiad, fel rhan o'i fusnes o ddydd i ddydd

- Roedd y Cyngor wedi bod yn trafod gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy gyda golwg ar benodi ar gyfer swydd wag swyddog datblygu strategaeth pobl hŷn ar sail rhannu/ar y cyd o bosibl
- roedd gwaith ar y gweill i ymgorffori'r cysyniad o Gyngor Sir Ddinbych yn gyngor cyfeillgar i ddementia o fewn gwaith bob dydd gwasanaethau'r cyngor a chynllunio gwasanaethau. Roedd Llanelwy wedi ennill statws y Ddinas Cyfeillgar i Dementia cyntaf yng Ngogledd Cymru yn ddiweddar. Roedd Clwb Rotari Rhuthun ar hyn o bryd yn awyddus i wneud mwy o waith o amgylch cymunedau sy'n gyfeillgar i ddementia. Roedd y fenter "Pwyntiau Siarad" wedi bod yn gyfrwng delfrydol ar gyfer cymunedau, gwledig a threfol, i ddatblygu'n gymunedau cyfeillgar i ddementia.

Teimlai'r Aelodau bod llyfrgelloedd mewn sefyllfa ddelfrydol ac wedi eu lleoli i'w datblygu yn ganolfannau cymunedol lle gall yr hen a'r ifanc gymdeithasu gyda golwg ar ddileu unigrwydd, ynysu cymdeithasol ac o ganlyniad cefnogi iechyd a lles.

Gofynnodd yr aelodau i ddolen i Gynllun Heneiddio'n Dda Sir Ddinbych gael ei hanfon atynt.

PENDERFYNWYD -

- (i) yn amodol ar y sylw a'r sylwadau uchod, i gymeradwyo'r angen am ymagwedd gorfforaethol at weithredu'r argymhellion trwy'r ystod o gamau gweithredu a restrir yn y Cynllun Gweithredu (Atodiad 1)*
- (ii) bod y Grŵp Cyfeirio Pobl Hŷn, sydd eisoes yn gyfrifol am weithredu Cynllun Heneiddio'n Dda Sir Ddinbych, yn cael y dasg o fynd i'r afael a symud ymlaen gyda'r Cynllun Gweithredu Cefnogi Annibyniaeth Pobl Hŷn, a*
- (iii) bod fersiwn drafft o Strategaeth Cefnogi Annibyniaeth yn Sir Ddinbych yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor i'w ystyried yn ei gyfarfod ym mis Tachwedd 2016.*

Ar y pwynt hwn (10.10 a.m.) cafwyd egwyl o 10 munud.

Ailddechreuodd y cyfarfod am 10.20am.

6 PWYNT MYNEDIAD SENGL

Cyflwynodd yr Aelod Arweiniol Gofal Cymdeithasol (Gwasanaethau Plant ac Oedolion) yr adroddiad (a ddisbarthwyd yn flaenorol) i ddarparu gwybodaeth gyfredol i'r aelodau am y Pwynt Mynediad Sengl yn Sir Ddinbych.

Cadarnhaodd yr Aelod Arweiniol fod yr un rhif ffôn ar gyfer mynediad i Wasanaethau Iechyd a Gofal Cymdeithasol wedi bod yn weithredol ers 2014.

Roedd Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Llywodraeth Cymru wedi sôn yn benodol am wasanaeth Pwynt Mynediad Sengl Sir Ddinbych yn ddiweddar

yn ystod lansiad y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) yn y Senedd.

Dywedodd yr Aelod Arweiniol a Swyddogion:

- mewn cyfarfod y diwrnod cynt gyda chynrychiolwyr o Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC) derbyniwyd cadarnhad bod arian bellach yn ei le ar gyfer y Gwasanaeth am y flwyddyn ariannol 2016/17
- roedd cost y Gwasanaeth oddeutu £660k y flwyddyn, y rhan fwyaf wedi'i ariannu drwy'r Grant o'r Gronfa Gofal Canolraddol a ddyfarnwyd yn flynyddol
- nawr bod y strwythurau ardal newydd yn eu lle o fewn y Bwrdd Iechyd, byddai cynrychiolwyr perthnasol yn bresennol mewn cyfarfodydd yn trafod cydweithio er mwyn galluogi'r gwaith i symud ymlaen a datblygu ymhellach
- Erbyn hyn ystyrir bod y dull Pwynt Mynediad Sengl yn fusnes o ddydd i ddydd yn ardal Sir Ddinbych ac roedd y sir ar y blaen i ardaloedd Awdurdodau Lleol eraill â'r dull hwn, a oedd yn cydymffurfio â gofynion y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru). Serch hynny, roedd yna bob amser le i wella ac, felly, roedd gwaith yn mynd rhagddo ar hyn o bryd mewn ymgais i atgyfnerthu a gwella'r gwasanaeth. Roedd angen gwneud rhagor o waith er mwyn integreiddio holl wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol sydd ar gael drwy Bwynt Mynediad Sengl. □ Roedd y gwasanaeth yn gweithredu ar strwythur un Arweinydd Tîm, a gefnogir gan 9 o weithredwyr Pwynt Mynediad Sengl (4 ohonynt yn siarad Cymraeg, a 4 arall oedd yn dysgu'r iaith). Roedd y tîm bellach yn gallu cynnig gwasanaeth saith diwrnod dwyieithog. Roedd yna hefyd gydlynnydd trydydd sector a chydlynwyr oedd yn arbenigo mewn meysydd penodol e.e. cwmpïadau, gofalwyr, Pwyntiau Siarad, addasiadau ac ati □ tra bod y gwasanaeth Pwynt Mynediad Sengl yn gweithredu ar sail saith diwrnod, nid oedd penwythnosau mor brysur ag yn ystod yr wythnos, felly, roedd staff ar y penwythnos fel arfer yn cynnwys un gweithredwr Pwynt Mynediad Sengl a gefnogir gan Nyrs Ardal. O ganlyniad i'r nifer llai o ymholiadau dros y ffôn ar y penwythnos, roedd staff yn gallu prosesu unrhyw geisiadau gwasanaeth a dderbyniwyd o ysbytai i osgoi unrhyw ôl-groniad gwaith ar hyn o bryd Pwynt Mynediad Sengl Sir Ddinbych oedd yr unig un yng Ngogledd Cymru oedd yn cynnig mynediad at y Gwasanaeth Nyrsio Cymunedol
- roedd y Gwasanaeth yn fwy na pharod i edrych ar ymarferoldeb gweithio gydag unrhyw wasanaeth sy'n mynegi diddordeb mewn gweithio gydag ef
- Roedd y Gwasanaeth wedi'i leoli yn swyddfeydd Ffordd Brighton y Cyngor yn y Rhyl ond arhosir am gadarnhad ynghylch lle byddai'r Gwasanaeth yn cael ei leoli pan fydd swyddfeydd Ffordd Brighton yn wag. Fodd bynnag, y cynllun tymor hir oedd y byddai'r Gwasanaeth yn y pen draw yn cael ei leoli yn barhaol ar safle Ysbyty Brenhinol Alexandra sydd wedi'i ail-ddatblygu yn Y Rhyl.

Mewn ymateb i gwestiynau gan yr Aelodau, dywedodd y swyddogion:-

- bod pob meddygfa wedi cael ymweliad o leiaf ddwywaith a chael gwybod am y gwasanaeth Pwynt Mynediad Sengl ac roedd gwybodaeth wedi ei gadael yn y meddygfeydd at sylw aelodau o'r cyhoedd. Gellid ymweld â meddygfeydd eto i'w hatgoffa am y Gwasanaeth a hefyd gofynnwyd i'r

Aelodau etholedig i atgoffa meddygfeydd yn eu hardaloedd am fodolaeth y Gwasanaeth a'r hyn y gellid ei gynnig i gleifion byddai'r Ganolfan Prestatyn Iach, maes o law, yn "ganolfan iechyd" a allai helpu i hyrwyddo'r Gwasanaeth Pwynt Mynediad Sengl

- o ran ynysu cymdeithasol ac unigrwydd, gall y trydydd sector a'r gwasanaeth ail-alluogi hefyd gynghori defnyddwyr gwasanaethau am grwpiau neu unigolion a allai eu helpu a'u cefnogi
- ymholiadau gan neu ynghylch pobl ag anableddau dysgu yn cael eu cynnwys ar hyn o bryd o dan "llwybr atgyfeirio - Gofal Cymdeithasol", fodd bynnag, yn y dyfodol, gallai'r atgyfeiriadau hynny gael eu cynnwys mewn categori anableddau dysgu ar wahân
- tra bod y rhan fwyaf o waith y Pwynt Mynediad Sengl yn cael ei ariannu gan grant y Gronfa Gofal Canolraddol, byddai unrhyw wariant sydd dros ben yn cael ei ariannu gan y Bwrdd Iechyd a'r Cyngor ar sail gyfartal.

Cyn ymweld â'r Gwasanaeth Pwynt Mynediad Sengl, llongyfarchodd yr Aelodau y Gwasanaeth ar y cynnydd a wnaed hyd yma wrth ddarparu'r gwasanaethau ar y cyd.

PENDERFYNWYD:

- yn amodol ar y sylwadau uchod, parhau i gefnogi a hyrwyddo datblygiad Pwynt Mynediad Sengl fel ffordd o hyrwyddo annibyniaeth dinasyddion a chwrdd â'r ddyletswydd statudol i ddarparu Gwasanaethau Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth yn ôl gofynion y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, a*
- bod adroddiad cynnydd ar ddatblygiad y Gwasanaeth yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor ymhen 12 mis, neu'n gynt os bydd yna bryder ynglŷn â chyllid ar gyfer y Gwasanaeth.*

7 RHAGLEN WAITH ARCHWILIO

Roedd copi o adroddiad gan y Cydlynnydd Archwilio, a oedd yn gofyn i'r Pwyllgor adolygu a chytuno ar ei Raglen Gwaith i'r Dyfodol ac a oedd yn rhoi diweddariad ar faterion perthnasol, wedi ei ddsbarthu gyda'r papurau ar gyfer y cyfarfod.

Roedd copi o 'ffurflen ar gyfer cynigion Aelodau' wedi ei chynnwys yn Atodiad 2, roedd Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Cabinet wedi'i chynnwys yn Atodiad 3 ac roedd tabl yn rhoi crynodeb o benderfyniadau diweddar y Pwyllgor a'r cynnydd a wnaed o ran eu gweithredu wedi ei gynnwys yn Atodiad 4.

Rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i ddrafft o'i Raglen Gwaith i'r Dyfodol ar gyfer cyfarfodydd y dyfodol, Atodiad 1, a chytunwyd ar y canlynol:-

26 Mai 2016:-

Prosiect Gwella Tai Gorllewin y Rhyl - cytunodd yr Aelodau i gyngyfarfod gael ei gynnal am 9.00am i ddilyn gyda chyfarfod llawn y Pwyllgor Archwilio Partneriaethau i ddechrau am 9.30am.

Roedd disgwyl i'r cynrychiolwyr canlynol fod yn bresennol:

- Graham Worthington, Cymdeithas Tai Clwyd Alyn
- Peter James a Carole Weller, Llywodraeth Cymru

Grŵp Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion Archwilio yn cyfarfod ar ddydd Iau 21 Ebrill 2016 lle gallai eitemau pellach ar gyfer cyfarfodydd yn y dyfodol gael eu cyflwyno.

Gan y byddai cyfarfod y Pwyllgor Archwilio Partneriaethau nesaf y cyfarfod cyntaf yn dilyn y Cyngor Blynyddol ar 10 Mai, byddai disgwyl i'r Pwyllgor benodi ei Is-gadeirydd yn y cyfarfod hwnnw. Gofynnwyd i unigolion â diddordeb yn y rôl i anfon eu CV at y Cydlynnydd Archwilio cyn y cyfarfod hwnnw. Mynegodd y Cynghorydd Raymond Bartley ddiddordeb mewn cael ei enwebu fel Is-Gadeirydd.

PENDERFYNWYD yn amodol ar yr uchod, cymeradwyo'r Rhaglen Waith fel y caiff ei hamlinellu yn Atodiad 1 yr adroddiad.

8 ADBORTH GAN GYNRYCHIOLWYR Y PWYLLGOR

Dim.

Daeth y cyfarfod i ben am 10.50am.